



**Datganiad
Caethwasiaeth Fodern
2018-2019**

Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2018-2019

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn ymyriad ar hawliau dynol. Mae gwahanol ffurfiau iddo, gan gynnwys caethwasiaeth, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl ar gyfer cam-fanteisio arnynt a gall gael effaith andwyol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled y byd.

Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu'r camau y mae Adra (Tai) wedi'u cymryd yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2018 - Mawrth 2019 i leihau'r risgiau o unrhyw gysylltiad gydag arferion sy'n tanseilio egwyddorion diogelwch ac urddas ein cwsmeriaid, cydweithwyr a'n cadwyni cyflenwi.

Mae'r datganiad hwn yn mynegi ein hymrwymiad i wella ein harferion i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn ein gweithgareddau corfforaethol a'n cadwyni cyflenwi.

Cyflwyniad

Adra (Tai) yw cymdeithas dai fwyaf Gogledd Cymru, yn darparu bron i 6,300 o gartrefi ledled Gogledd Cymru i'r rheini sydd ag angen tai. Rydym ni'n darparu cartrefi a gwasanaethau fforddiadwy o ansawdd i'n tenantiaid gyda'r nod o amddiffyn a datblygu diwylliant a threftadaeth y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw stoc tai amrywiol, sy'n cynnwys 400 o unedau tai gwarchod ar gyfer unigolion hŷn a bregus. Rydym yn rheoli nifer o gadwyni cyflenwi ar draws ein busnes i geisio cynorthwyo i adeiladu, rheoli, a chynnal ein cartrefi l safon uchel.

Mae Adra (Tai) wedi ymrwmo i gynnal ei fusnes mewn modd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn unol â safonau moesegol priodol. Rydym wedi ymroi i weithredu gyda hygyrdd yn ein holl berthnasau busnes a gorfodi prosesau a mesurau effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn digwydd yn unrhyw ran yn ein cadwyni cyflenwi. Mae Adra (Tai) yn sicrhau bod y lefel uchaf o hygyrdd yn cael ei gynnal drwy ein holl feysydd busnes drwy hyrwyddo ein gwerthoedd craidd:

- **Teg** - Gwneud penderfyniadau cyson a gwrthrychol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a pharchu amrywiaeth
- **Atebol** - Bod yn effeithiol a chymryd cyfrifoldeb am ein penderfyniadau a'r pethau rydym yn eu gwneud
- **Agored** – Bod yn onest a thryloyw yn bob dim 'rydym yn ei wneud
- **Uchelgeisiol** – Rydym yn sefydliad deinamig ac uchelgeisiol sy'n cefnogi arloesedd a chreadigrwydd, ac yn chwilio am gyfleoedd i wella pob agwedd o'n busnes

Strwythur y Sefydliad a Busnes

I sicrhau llwyddiant Adra (Tai), mae'n hanfodol bod y sefydliad yn cael ei lywodraethu yn effeithiol er lles gorau ein cwsmeriaid. Mae gan Adra (Tai) Fwrdd Rheoli gyda 12 aelod; mae pedwar yn denantiaid Adra (Tai), chwech yn annibynnol, a dau wedi'u henwebu gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn goruchwyllo'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Mae Adra (Tai) yn cyflogi 315 staff, yn darparu bron i 6,300 o gartrefi ledled Gogledd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'n stoc yn dai anghenion cyffredin, mae hefyd yn cynnwys tai gwarchod a thai cefnogol.

Mae Adra (Tai) wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru a chaiff ei reoleiddio ganddynt. Rydym wedi ein cofrestru, gyda rheolau elusennol, o dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Beth yr ydym wedi ei gyflawni yn y 12 mis diwethaf?

Yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2018 - Mawrth 2019 mae Adra (Tai) wedi cymryd nifer o gamau rhagweithiol i ddiogelu rhag y risg o gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn ein cadwyni cyflenwi. Er enghraifft:

- Rydym yn parhau i gweithio trwy y Cynllun Gweithredu sy'n manylu ar y gweithgareddau y byddwn yn ymgymryd â hwy i weithredu pob un o'r ymrwymadau o fewn y Cod Ymarfer;
- Rydym wedi darparu hyfforddiant caethwasiaeth fodern i staff rheng flaen ac uwch reolwyr o fewn y sefydliad. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Unseen UK, Heddlu Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Gwnaethom gynnal y ddigwyddiad cyntaf ar y cyd yng Nghymru ar gòd ymarfer Llywodraeth Cymru – cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn, Prifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai. Daeth dros 50 o gyflenwyr i 'r digwyddiad, a daeth llawer ohonynt eu hunain yn llofnodwyr i 'r Cod o ganlyniad i 'r digwyddiad.
- Cafodd Rheolwr Caffael Adra (Tai) wahoddiad i siarad yn nigwyddiad Code150 Llywodraeth Cymru yn Wrecsam, a gynhaliwyd i goffâu'r 150^{fed} llofnod i 'r Cod.
- Rydym wedi datblygu cod ymddygiad cyflenwyr, sy'n nodi'r safonau gofynnol o ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan ein cyflenwyr a'u isgontractwyr.
- Rydym wedi datblygu a gweithredu polisi caffael cynaliadwy, sy'n ceisio sicrhau bod ein gweithgarwch caffael yn cefnogi 'r egwyddorion sylfaenol a 'r themâu allweddol a geir yng nghynllun corfforaethol Adra (Tai) 2019-2022 a 'r themâu blaenoriaeth sydd wedi'u cynnwys o fewn strategaeth gymunedol Adra (Tai) 2018 – 2030.
- Rydym yn parhau i adolygu a diweddarau ein prosesau caffael i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i arferion cyflogaeth y cyflenwyr.

Polisiâu

Mae Adra (Tai) yn gweithredu'r polisiâu canlynol:

- Cod Ymddygiad Staff
- Cod Ymddygiad Aelodau Bwrdd
- Cod Ymddygiad Cyflenwyr
- Rheolau Gweithdrefnau Contractau
- Polisi Caffael Cynaliadwy
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Diogelu Grwpiau Bregus
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Gwrth-Iwgrwobrwyo a Gwrth-dwyll
- Polisiâu Iechyd a Diogelwch
- Polisi Recriwtio a Dewis
- Polisi Trais Domestig
- Rheoliadau Ariannol
- Rheolau Sefydlog

Diwydrwydd dyladwy a Rheoli Risg

Mae Adra (Tai) yn ymwybodol bod y diwydiant adeiladu yn fwy agored i gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl nac unrhyw sector arall, hyd yn oed ar gyfer y cwmnïau hynny sy'n gweithredu o fewn y DU yn unig. Gan ein bod yn comisiynu gwaith adeiladu a phrosiectau adnewyddu ar ein heiddo, rydym felly yn gweithredu mewn sector 'risg uchel'.

Mae Adra (Tai) wedi cyflwyno nifer o gamau i liniaru'r risg o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl wrth gyflenwi ei wasanaethau a chadwyni cyflenwi. Er enghraifft, gofynnir i'r holl gontractwyr ar Gofrestr Contractwyr Cymeradwy Adra (Tai) arwyddo Cod Ymddygiad i Gyflenwyr Adra (Tai), sy'n nodi'r safonau gofynnol o ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan ein cyflenwyr a'u isgontractwyr. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 85 o gyflenwyr wedi ymrwymo i'n Cod.

Mae tendro contractau newydd yn cynnwys gofyniad bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r Ddeddf a pheidio cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n groes i'r Ddeddf. Mae'r meini prawf yn cynnwys cwestiynau sy'n berthnasol i arferion cyflogi'r cyflenwr a chydymffurfiaid â'r Ddeddf. Yn benodol, mae pob contract newydd yn cynnwys y cymalau sy'n sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r holl oblygiadau statudol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch, lles, amgylchedd, caethwasiaeth fodern, hawliau a pherthnasau cyflogaeth, hawliau gwaith, hawliau dynol, a chydaddoldeb. Yn ogystal, mae Cod Ymddygiad Cyflenwyr Adra (Tai) yn gael ei gynnwys gyda phob cyfle contract newydd a gyhoeddwyd.

Mae Adra (Tai) wedi mabwysiadu polisi dim goddefgarwch at gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Rydym yn cynnwys telerau contractiol yn ein gytundebau masnachol gyda chyflenwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio nid yn unig gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol, ond hefyd gyda darpariaethau penodol o ran sut y caiff unigolion eu trin.

Cadwyni Cyflenwi Adra (Tai)

Mae Adra (Tai) wedi nodi bod ei gadwyn cyflenwi yn un o'r prif feysydd o risg ac amlygiad i gaethwasiaeth fodern. Mae Cadwyn Gyflenwi Adra (Tai) yn canolbwyntio yn bennaf ar adeiladu, gwasanaethau proffesiynol, cyfleustodau a rheoli cyfleusterau. Yn 2018-2019 defnyddiwyd o gwmpas 400 o gyflenwyr unigol gennym ar draws amrediad eang o nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Caiff caffael Adra (Tai) ei lywodraethu gan y Rheolau Gweithdrefnau Contractau, Polisi Caffael Cynaliadwy a'r Drefn Ddirprwyo, sydd yn sicrhau bod contractau yn cael eu dyfarnu yn unol ag egwyddorion tegwch, tryloywder a thriniaeth gyfartal.

Mae Adra (Tai) wedi sefydlu perthnasau uniongyrchol gyda nifer o gyflenwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU, ac nid oes gennym unrhyw gyflenwyr Haen 1 o'r tu allan i'r DU. Fel sefydliad, rydym wedi ymrwmo i gefnogi BBaCh i ymgysylltu â phrosesau caffael, a thynnu'r rhwystrau a wynebir gan BBaCh wrth gystadlu am gontractau.

Ein hamcan trwy bob cyfle i dendro, yw cyfrannu at ddatblygiad yr economi leol ac uchafu cyfleoedd i adfywio cymuned. Mae Adra (Tai) yn trafod yn rhagweithiol gyda darparwyr gwasanaeth a'r gadwyn gyflenwi ynglŷn â mentrau cymdeithasol gyda'r amcan o greu cyfleoedd wedi eu targedu ar gyfer y cymunedau lle maent yn gweithio.

Hyfforddiant

I sicrhau bod pob cydweithiwr yn llwyr ymwybodol o safbwynt dim goddefgarwch ac ymrwymiad i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi, darparwyd hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen ac uwch reolwyr. Cafodd yr hyfforddiant hwn ei ddarparu ar y cyd ag Unseen UK, Llywodraeth Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.

Bydd Adra (Tai) yn darparu Hyfforddiant Diogelu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cynnwys meysydd allweddol fel deall eich rôl chi mewn perthynas â diogelu oedolion, plant a phobl ifanc, deall sut i amddiffyn, yn ychwanegol at adnabod mathau o niwed ac esgeulustod.

Rhaid i aelodau Tîm Caffael Adra (Tai) gwblhau hyfforddiant y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi ar gaethwasiaeth fodern a hawliau dynol.

Monitro Effeithlonrwydd

Mae Adra (Tai) yn deall pwysigrwydd asesu effeithlonrwydd ein dull o ymdrin gyda chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl ac yn parhau yn ymrwymedig i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.

Byddwn yn adolygu ein polisiâu a gweithdrefnau yn barhaus I ymgysylltu a hyfforddi staff ar draws y sefydliad i wella dealltwriaeth a thargedu meysydd o fewn ein busnes sydd fwyaf ar risg.

Beth yw ein cynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf?


Mae Adra (Tai) yn cydnabod bod angen gweledigaeth dymor -hir, bod yn rhaid cydlynu a chydweithio i oresgyn caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Byddwn yn parhau i adolygu ein proses mewnol i fonitro effeithlonrwydd ein gweithrediadau yn erbyn caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Ymhellach, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau allanol fel Heddlu Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru i drechu caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yng Ngwynedd, Gogledd Cymru a thu hwnt.

Datganiad

Mae'r datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Adra (Tai) a chaiff ei wneud yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.



Mark Jones
Cadeirydd y Bwrdd



Ffrancon Williams
Prif Weithredwr